cbac wjec

# CANLLAW I FYFYRIWR AR

# GYFARWYDDIADAU ASESU



Er mwyn eich helpu i wneud eich gorau yn eich arholiadau a'ch gwaith cwrs, mae ein timau Pwnc ac Asesu wedi creu'r canllaw hwn i esbonio beth yw cyfarwyddiadau asesu, pam maen nhw'n bwysig, a beth sy'n digwydd os nad ydynt yn cael eu dilyn.

**Darllenwch y canlynol yn ofalus. Os nad oes unrhyw beth yn glir, siaradwch â'ch athro neu ddarlithydd, maen nhw yno i'ch helpu.**

## BETH YW CYFARWYDDIADAU ASESU?

Mae cyfarwyddiadau asesu (a elwir weithiau'n gyfarwyddyd) yn dweud wrthych sut i gwblhau pob adran neu gwestiwn — er enghraifft:

- "Atebwch bob cwestiwn yn y lleoedd gwag priodol."
- "Atebwch naill ai Cwestiwn 1 neu Gwestiwn 2, ac yna atebwch Gwestiwn 3."
- "Ticiwch dri gosodiad isod sy'n disgrifio ... orau"
- "Cysylltwch bob gosodiad yng ngholofn A â'w diffiniad cywir yng ngholofn B."

Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn sicrhau eich bod chi'n deall yn union beth sydd angen i chi wneud i ateb y cwestiwn yn gywir.

## PAM DDYLECH CHI DDILYN Y CYFARWYDDIADAU?

Mae dilyn y cyfarwyddiadau yn eich helpu chi i:

- Arbed amser - nid ydych yn gwastraffu amser yn gwneud gwaith diangen.
- Osgoi colli marciau, mae angen i chi ddilyn y cyfarwyddiadau'n ofalus.
- Canolbwyntio - rydych chi'n gwybod beth sydd i'w ddisgwyl ym mhob adran.

Gallai anwybyddu cyfarwyddiadau olygu eich bod chi'n colli marciau, hyd yn oed os yw eich atebion yn gywir fel arall.

## BETH SY'N DIGWYDD OS NAD YDYCH CHI'N DILYN Y CYFARWYDDIADAU?

Mae ein harholwyr wedi'u hyfforddi i farcio gwaith yn deg ac yn gyson. Mae hynny'n golygu, os nad yw rhywun yn dilyn y cyfarwyddiadau, rydyn ni'n ei drin mewn ffordd sy'n deg i bawb - heb helpu neb mewn ffordd annheg, na chwaith cosbi unrhyw un.

Isod mae rhai sefyllfaoedd cyffredin a sut maen nhw'n cael eu trin.

## 1. ATEB MWY NAG UN CWESTIWN DEWISOL

**Cyfarwyddyd: "Atebwch naill ai Cwestiwn 1 neu Gwestiwn 2."**

Os ydych chi'n ateb y ddau: Bydd y ddau ateb yn cael eu marcio, a byddwch chi'n derbyn yr uchaf o'r ddau farc.

## 2. DEWIS GORMOD O ATEBION MEWN CWESTIWN AMLDDEWIS

**Cyfarwyddyd: "Ticiwch y tri gosodiad cywir."**

Os ydych chi'n ticio mwy na tri: Byddwch yn derbyn y marciau ar gyfer yr atebion cywir, ond bydd un marc yn cael ei gymryd i ffwrdd ar gyfer pob tic ychwanegol.

Ni allwch fynd islaw sero - y sgôr isaf yw 0.

**Enghraifft: Ticiwch y tri gosodiad cywir o'r rhestr isod.**

| Dewis | Ticiwch y dewis cywir |
|---|---|
| Ymateb cywir | ✓ |
| Ymateb anghywir | |
| Ymateb cywir | ✓ |
| Ymateb anghywir | |
| Ymateb anghywir | ✓ |
| Ymateb anghywir | |
| Ymateb anghywir | |
| Ymateb cywir | ✓ |
| Ymateb anghywir | |

Mae'r myfyriwr hwn wedi ticio pedwar blwch yn hytrach na'r tri blwch oedd eu hangen.

O ganlyniad, maen nhw'n cael 2 farc — un marc am bob ateb cywir, ac un marc yn cael ei dynnu am y tic ychwanegol.

## 3. RHOI GORMOD O ATEBION MEWN CWESTIWN YSGRIFENEDIG

**Cyfarwyddyd: "Rhowch dri rheswm pam..."**

Os ydych chi'n rhoi mwy na tri ateb, mae'r hyn sy'n digwydd yn dibynnu ar y math o gwestiwn:

- Os mai dim ond ychydig o atebion posibl sydd (er enghraifft, enwi rhifau cysefin rhwng 1-10), byddwn yn marcio eich holl atebion, ac yna'n tynnu marc ar gyfer pob ateb ychwanegol sydd wedi'i rhoi.
    - Enghraifft: Rydych chi'n rhoi pedwar ateb ac mae tri ohonyn nhw'n gywir → Rydych chi'n ennill 2 farc (3–1=2).
- Os oes nifer o atebion posibl, byddwn yn marcio'r rhai cywir hyd at yr uchafswm marciau sydd ar gael.
- Os yw pob ateb yn anghywir, mae eich sgôr yn aros yn 0 - nid ydym yn tynnu marciau islaw sero.

## 4. DEFNYDDIO'R SYMBOL ANGHYWIR (E.E. CROES YN HYTRACH NA THIC)

Cyfarwyddyd: "Ticiwch y tri gosodiad cywir."

Os ydych chi'n defnyddio symbol gwahanol (fel "X") yn lle tic ac yn ei wneud yn gyson, mae hynny'n iawn - ni fyddwch yn colli marciau.

Ond os ydych chi'n cymysgu symbolau (ticiau a chroesau), byddwn yn marcio'r ticiau yn unig, gan nad yw'r hyn rydych chi'n ei olygu (eich ateb) yn glir.

**Enghraifft: Ticiwch y pedwar gosodiad cywir o'r rhestr isod.**

| Choice | Tick the correct choice |
|---|---|
| Ymateb cywir | ✓ |
| Ymateb anghywir | |
| Ymateb cywir | ✓ |
| Ymateb anghywir | |
| Ymateb anghywir | |
| Ymateb cywir | ✗ |
| Ymateb anghywir | |
| Ymateb cywir | ✓ |
| Ymateb anghywir | |

Yn yr enghraifft hon, mae'r myfyriwr wedi dewis y pedwar ateb cywir ond wedi rhoi croes yn lle tic yn erbyn un o'r atebion. Gan nad yw'n glir beth oedd bwriad y myfyriwr yn croesi'r ateb allan, mae'n cael 3 marc.

## 5. CROESI ALLAN ATEB CYWIR

Os byddwch chi'n croesi allan ateb, ni fyddwn yn ei farcio - hyd yn oed os yw'n gywir - oni bai eich bod chi'n ysgrifennu'n glir nad oeddech chi'n bwriadu ei groesi allan.

**Enghraifft: Enwch y ddau Brif Weinidog o Brydain wnaeth arwain llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ystod yr Ail Ryfel Byd. (2 farc)**

*Winston Churchill a Neville Chamberlain.*

Dewisodd y myfyriwr y ddau ateb cywir ond croesodd un ohonyn nhw allan. Gan nad yw'r ateb hwnnw'n glir, dim ond un marc sy'n cael ei roi, er na wnaethon nhw roi ateb gwahanol.

## 6. LABELU RHYWBETH YN ANGHYWIR

Os ydych chi'n labelu eich ateb i Gwestiwn 5 fel "Cwestiwn 6," neu'n cyfeirio at "Tabl 1" yn lle "Tabl 2", ni fyddwch yn colli marciau cyn belled â'i bod yn glir beth roeddech chi'n ei olygu.

Fodd bynnag, os ydych chi'n ailadrodd yr un ateb o dan y ddau gwestiwn, dim ond unwaith y byddwch chi'n cael marciau.

## 7. YSGRIFENNU ATEBION YN Y LLE ANGHYWIR

Os ydych chi'n ysgrifennu eich ateb yn y lle anghywir ar y papur, ond mae'n glir pa gwestiwn rydych chi'n ei ateb, ni fyddwch chi'n cael eich cosbi.

Fodd bynnag, gallai hyn wneud pethau'n anoddach i chi - er enghraifft, efallai ni fyddwch yn ysgrifennu digon neu'n ysgrifennu gormod.

Os yw'r cwestiwn yn gofyn yn benodol i chi ychwanegu sylw at flwch, graff, neu ddiagram, ac nid ydych yn gwneud hynny, ni fyddwch yn cael marciau ar gyfer y rhan honno.

## GWYBODAETH ALLWEDDOL

**Cymerwch ychydig eiliadau bob amser i ddarllen a dilyn y cyfarwyddiadau'n ofalus cyn ateb. Mae'n un o'r ffyrdd hawsaf o wneud yn siŵr eich bod chi'n cael y marciau rydych chi'n eu haeddu.**